



### Amcan Llesiant 3

Dechrau'n Dda - Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr

Y canlynol yw ein hymrwymiaidau a'n sylwadau cynnydd diwedd blwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2018/19.

Ymrwymiaidau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<b>A – Gwella Deilliannau Addysg</b>		
<p>Byddwn yn gwella deilliannau i Ddisgyblion Mwy Abl a Thalentog. (Cyf. 13114)</p>	✓	<p>Mae grŵp Cydgysylltwyr Cyfnod Sylfaen MAT/Seren yn Sir Gaerfyrddin wedi ei sefydlu er mwyn sicrhau bod disgyblion MAT yn cael eu clustnodi'n gywir a bod eu cyfleoedd dysgu'n ehangu eu sgiliau a'u talentau drwy gydol yr ysgol uwchradd. Caiff gweithgareddau eu cynllunio ar y cyd i sicrhau y ceir yr effaith fwyaf bosibl ar arian grant. Roedd y digwyddiadau lansio a gefnogwyd gan yr Athro Matthew Williams o Goleg yr Iesu Rhydychen yn cynnwys tua 700 o ddisgyblion o'n carfannau blwyddyn 9 a 10 a gafodd gipolwg defnyddiol ac ysbrydoledig ar ofynion mynediad amryw o brifysgolion blaenllaw.</p> <p>Roedd Rhaglen Cymorth Mathemateg Pellach wedi gweithio mewn cydweithrediad â swyddogion ALL ac athrawon mathemateg uwchradd i ddarparu digwyddiad Her Mathemateg i ddisgyblion blwyddyn 10 holl ysgolion uwchradd Sir Gaerfyrddin. Paratôdd y digwyddiad y disgyblion yn dda ar gyfer eu cystadleuaeth her mathemateg a hefyd roedd yn darparu datblygiad proffesiynol ystyrlon ar gyfer staff addysgu mewn perthynas ag addysgeg datrys problemau.</p> <p>Mae disgyblion MAT sy'n gweithio o fewn rhaglenni Academi a Sylfaen Seren wedi cael blas ar ystod o weithgareddau cyfoethogi yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae'r rhain yn cynnwys diwrnod peirianeg ym Mhrifysgol Abertawe, gweithdai ym Mhrifysgolion Caerfaddon, diwrnodau cael blas ar Beirianeg a Chemeg ym Mhrifysgol Abertawe a gweithdai drama a cherddoriaeth yn y Coleg Brenhinol Cerdd a Drama yng Nghaerdydd. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol dros ben o bob digwyddiad, gan ysbrydoli ein disgyblion a sicrhau bod eu disgwyliadau'n parhau'n uchel.</p> <p>Mae Seren ôl-16 (Academi Seren) wedi gwrandao ar sgysiau gan Jonathan Padley am geisiadau i Rydgrawnt ac eleni mae 10 o fyfyrwyr wedi cael cynigion i fynd i Rydgrawnt. Mae dau fyfyrwr o Sir Gaerfyrddin wedi ennill llefydd yn Ysgol Haf Harvard ar gyfer mis Gorffennaf eleni.</p> <p>Mae athrawon ac ymgynghorwyr o Sir Gaerfyrddin wedi ymweld â <i>School 21</i> yn Llundain, gan ganolbwyntio ar sut mae'r ysgol yn defnyddio llafaredd, hyfforddiant a dysgu seiliedig ar brosiectau i herio pob dysgwr. Bydd yr ymweliad ymchwil hwn yn llywio ein strategaeth arwain a MAT ar gyfer 2019/2020. Er enghraifft, mae hyfforddiant personol ar gyfer arweinwyr a meddylfryd hyfforddiant ar gyfer staff addysgu yn cael sylw mewn rhai ysgolion peilot</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		<p>sy'n anelu at gyflwyno'r ymagwedd hyfforddiant mewn perthynas â dysgu annibynnol i'n disgyblion.</p> <p>Yn ogystal, cynhaliwyd cynhadledd ysbrydoledig dan arweiniad James Nottingham ar gyfer ein hysgolion bach a gwledig, gan herio methodoleg addysgeg ac annog cyfleoedd dysgu uchelgeisiol a ategir gan dasgau a phrofiadau heriol ac ystyrion i bob dysgwr. Mae llwyddiant y gynhadledd hon wedi sicrhau y caiff un arall ei chynnal er mwyn ymgysylltu â phob ysgol yn ystod tymor yr haf.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu canran yr ysgolion a ddynodwyd â chategori cymorth 'Gwyrdd neu Felyn' o fewn y System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion. (Cyf 13115) MF5-29</p>	✓	<p>Mae ymgynghorwyr her wedi gweithio gyda phenaethiaid a chynrychiolwyr cyrff llywodraethu drwy gydol tymor yr hydref i sicrhau bod y pecyn cymorth pwrpasol a drefnir ar gyfer pob ysgol ar sail unigol yn cyd-fynd yn gadarn â'i chynllun datblygu unigol.</p> <p>Mae cynnydd disgyblion ac ansawdd ac effaith prosesau hunanarfarnu wedi cael eu hadolygu er mwyn sicrhau cywirdeb wrth nodi blaenoriaethau datblygiadol.</p> <p>Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei defnyddio i lywio categorïddio ysgolion yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Mae'r darlun cyffredinol ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn adlewyrchu'r ffaith bod nifer yr ysgolion 'gwyrdd' yn y sector cynradd yn parhau i gynyddu. Mae nifer ein hysgolion 'melyn' yn dal i fod yn weddol sefydlog dros amser. Mae gennym 2 ysgol wedi'u categorïddio fel rhai 'coch' yn ystod blwyddyn academaidd 2018/2019.</p> <p>O fewn y sector uwchradd mae gennym 7 ysgol wedi'u categorïddio'n rhai 'Gwyrdd' a 5 yn rhai 'melyn'.</p> <p>Yn ein hysgolion arbennig a'n hunedau Cyfeirio Disgyblion, mae'r categorïau amrywio o wyrdd i goch.</p> <p>Wrth fyfyrion ar y data hwn rhaid nodi mai elfen bwysicaf y broses hon yw'r pecyn cymorth a ddarperir, sy'n monitro effaith y cymorth yn rheolaidd ac yn sicrhau bod yr ysgol yn gallu gwneud cynnydd yn amserol.</p>
<p>Byddwn yn cefnogi ysgolion, ar y cyd ag ERW (Ein Rhanbarth ar Waith) i wella deilliannau'r holl ddisgyblion ymhellach ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 ond gyda phwyslais penodol ar godi cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal. (Cyf 13116) MF5-28</p>	✓	<p>Yn ystod y flwyddyn academaidd mae'r Ymgynghorwyr Her a'r Ymgynghorwyr Her Cysylltiol wedi gweithio gyda phenaethiaid, arweinwyr uwch a llywodraethwyr i gefnogi ac adolygu'r cynnydd yn unol â blaenoriaethau datblygu'r ysgol. Mae'r pecyn cymorth pwrpasol yn sicrhau bod ffocws trylwyr yn cael ei roi ar flaenoriaethau allweddol, gan hefyd roi arweiniad mewn perthynas â'r genhadaeth genedlaethol a newidiadau cysylltiedig sy'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd ar draws y sector addysg.</p> <p>Mae ymgynghorwyr her yn annog ysgolion mwyfwy i weithio mewn partneriaeth â'i gilydd, gan anelu at ddatblygu ysgolion fel sefydliadau dysgu, rhannu arfer gorau a datblygu prosesau hunanwerthuso a monitro mewn modd cydweithredol.</p> <p>Gwnaethpwyd ymweliadau ymchwil â Cheredigion i adolygu safonau'r Cyfnod Sylfaen, ag Ysgol 21, ac Ysgol Doc Penfro i adolygu her ac addysgu ysbrydoledig, er mwyn llywio'r strategaeth gwella ysgolion.</p> <p>Adolygir effaith y cymorth i ysgolion yn rheolaidd, gan nodi'r cynnydd yn yr adroddiadau ERW. Defnyddir y wybodaeth</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		<p>hon yn dda er mwyn teilwra cymorth ar gyfer y tymor sydd i ddod, gan sicrhau bod y ffocws yn parhau ar gynnydd yr holl ddysgwyr.</p> <p>Adolygir deilliannau crynodol yn ystod tymor yr haf a thymor yr hydref. Mae dadansoddi'r wybodaeth hon, ynghyd â'r cynnydd a nodir yn adroddiadau ERW yn llywio rhaglenni datblygu a hyfforddi'r timau gwella ysgolion ar gyfer 2019/2020.</p> <p>Yn ogystal, mae pwyslais penodol wedi bod ar gynnydd disgyblion yn y cyfnod sylfaen, gan gynnwys ystod o hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ddeall deilliannau'r Cynllun Cyfnod Sylfaen; gwella llafaredd ac ysgrifennu ymddangosol ar gyfer disgyblion oed meithrin a derbyn; codi safonau addysgu mathemateg a rhifedd, a gwella effaith prosesau monitro mewn ysgolion.</p>
<p>Byddwn yn parhau i ddal ERW (Ein Rhanbarth ar Waith) a'r holl ysgolion i gyfrif am barhau i wella safonau a deilliannau i ddysgwyr, gan gymryd camau ymyrraeth mewn ysgolion lle nad yw perfformiad yn foddhaol. (Cyf. 13117)</p>	<p>✓</p>	<p>Mae Ymgynghorwyr Her ac Ymgynghorwyr Her Cysylltiol ERW wedi cynnal ystod eang o weithgareddau i sicrhau bod gweithredu a deilliannau llwyddiannus yn deillio o'r camu hwn. Mae ffocws diddiwedd wedi bod ar gynnal ysgolion i wella arweinyddiaeth, darpariaeth a chynnydd drwy raglenni gwelliant pwrpasol a chytunedig ar gyfer pob ysgol yn dilyn Ymweliad Cymorth Craidd ERW (gan gynnwys 'Categori Cenedlaethol' fel elfen allweddol o'r gwaith) yn ystod Tymor yr Hydref 2018. Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Addysg a'r Pennaeth Effeithiolrwydd Ysgolion wedi monitro a gwerthuso effaith y gwaith hwn yn agos. Roedd hyn yn cynnwys adolygu, gwerthuso a chraffu ar y cynnydd a wnaed gan bob 'Ysgol sy'n Destun Pryder.'</p> <p>Mae'r gweithgareddau wedi cael eu cefnogi'n effeithiol gan Raglen Ymweliadau Ysgolion Panel Craffu Addysg yr Awdurdod Lleol, ynghyd â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Trafodaethau Arolygydd Cyswllt yr Awdurdod Lleol</li> <li>- Gwaith ymyrraeth a chefnogi Panelau Gwella Ysgolion unigol.</li> <li>- Ymgymryd ag elfennau penodol hyfforddiant a darpariaeth/cymorth â ffocws mewn lleoliadau ysgol penodol (sy'n canolbwyntio ar arweinyddiaeth a darpariaeth y cwricwlwm)</li> <li>-Gwaith craffu ychwanegol drwy gyfarfodydd 'SCIT' lleol (<i>Support, Challenge and Intervention Team</i>)</li> <li>- Swyddogion yn cyflwyno amrywiaeth o adroddiadau dadansodol i'r Panel Craffu Addysg a Gwasanaethau Plant (gan sicrhau cyfle i drafod a dadansoddi perfformiad ac effaith gwaith ERW yn ein hysgolion, yn cynnwys meysydd i'w gwella a mwy o adnoddau).</li> </ul> <p>Mae prosesau atebolrwydd a chymorth o'r fath wedi profi i fod yn llwyddiannus iawn yn ystod y flwyddyn. Byddant yn parhau i gael eu cyflwyno a'u gwella mewn modd priodol ac yn unol ag anghenion ysgolion unigol.</p>
<p>Byddwn yn gwella'r sgôr gyfartalog wedi'i chapio 9 (9 canlyniad arholiad gorau) i ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 (PAM/032)</p>	<p>✓</p>	<p><b>Canlyniad 2018/19 - 363.1 (Blwyddyn Academaidd 17/18).</b> Mae'r canlyniad yn cydymffurfio â'r targed ac yn welliant ar y flwyddyn flaenorol sef 360.8. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 349.5 a'r chweched canlyniad gorau</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<p>(Canlyniad 2017/18 - 360.8 - Blwyddyn Academaidd 16/17) (Targed 2018/19 – 361.1 - Blwyddyn Academaidd 17/18)</p>		<p>yng Nghymru. Canlyniad da iawn sy'n adlewyrchu effaith cydweithredu rhwng ein Tîm Gwella Ysgolion a'n huwch-arweinwyr ysgolion a staff.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni trothwy Lefel 3 (2 <b>Safon Uwch</b> gradd A-E)(5.0.2.3) (Canlyniad 2017/18 – 97.8% - Blwyddyn Academaidd 16/17) (Targed 2018/19 - 98.0% - Blwyddyn Academaidd 17/18)</p>	x	<p><b>Canlyniad 2018/19 - 97.9% (Blwyddyn Academaidd 17/18).</b> Mae'r canlyniad ychydig oddi ar y targed ond mae gwelliant bach ers y flwyddyn flaenorol. Mae safle cymharol yr Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi gostwng o'r pumed safle i'r unfed safle ar ddeg. Mae her a chymorth ychwanegol i ysgolion yn dal i gael cryn effaith ar berfformiad yn gyffredinol, a rhoddir ystyriaeth i broffil unigol pob carfan. Disgwylir amrywiadau blynyddol pan fo'r perfformiad mor uchel. Mae'n bwysig nodi ein bod wedi parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer y chwe blynedd diwethaf</p>
<p><b>B – Gwella Presenoldeb yn yr Ysgol - Sicrhau bod pob diwrnod yn cyfrif</b></p>		
<p>Byddwn yn parhau i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd mewn ysgolion er mwyn sicrhau'r cyfleoedd addysgol a lles plant gorau posibl, gan herio presenoldeb gwael ac absenoldebau parhaus mewn modd pedant. (Cyf. 13118)</p>	✓	<p>Mae'r Gwasanaeth Llesiant Addysg yn parhau i hyrwyddo presenoldeb cadarnhaol yn yr ysgol yn unol â chanllawiau Cymru gyfan. Gan fod presenoldeb yn yr ysgol yn dal i fod yn destun pryder, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gallai'r awdurdod lleol wella'r gwasanaeth.</p>
<p>Byddwn yn gweithredu'r Blaen-gynllun Presenoldeb yn dilyn ymgynghori â Phenaethiaid. (Cyf. 13119)</p>	✓	<p>Mae'r cynllun gwella gwasanaeth yn ei le ac mae Grŵp Llywio wedi'i sefydlu i fonitro cynnydd. Mae agweddau ar y cynllun wedi'u cwblhau a'u cofnodi a byddant yn cyfrannu at newidiadau arfaethedig wrth reoli presenoldeb yn yr ysgol yn y dyfodol.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu % <b>presenoldeb disgyblion</b> mewn ysgolion cynradd (PAM/007) (Canlyniad 2017/18 - 94.4% - Blwyddyn Academaidd 16/17) (Targed 2018/19 - 94.5% - Blwyddyn Academaidd 17/18)</p>	x	<p><b>Canlyniad 2018/19 - 93.9 - Blwyddyn Academaidd 2017/18.</b> Yn siomedig ddigon, nid yw'r canlyniad yn cydymffurfio â'r targed ac mae wedi gwaethygu ers canlyniad y flwyddyn flaenorol sef 94.4%. Mae ein safle cymharol yng nghyd-destun Cymru wedi gostwng i'r 22ain safle o'r 21ain safle yn y flwyddyn flaenorol. Mae'n glir o ffigur 2017/2018 fod presenoldeb yn yr ysgol gynradd wedi gostwng yn sylweddol yn Sir Gaerfyrddin. Y rheswm pennaf dros hyn oedd salwch disgyblion gan fod llawer iawn o firysau a salwch ymysg plant y flwyddyn honno. Felly, roedd mwy o effaith andwyol ar rai ysgolion nag eraill. Mae'r Awdurdod Lleol wedi parhau i weithio gydag ysgolion cynradd i leihau absenoldeb y gellir ei osgoi a bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol dros y flwyddyn i ddod. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys helpu ysgolion i ymateb i absenoldeb yn ystod y camau cynnar a sicrhau y rhoddir cyngor, cymorth ac arweiniad ar lefel uchel i deuluoedd lle bo'r angen. Yn yr achosion prin iawn lle mae presenoldeb wedi methu â gwella oherwydd absenoldeb anawdurdodedig, nid oes opsiwn wedi bod gennym heblaw cyfeirio'r achos i'r Llys er mwyn sicrhau hawl addysgol y disgyblion hyn.</p>
<p>Byddwn yn gostwng % yr <b>absenoldeb wedi'i awdurdodi</b> mewn ysgolion cynradd (4.1.2.3) (Canlyniad 2016/17 - 4.4% - Blwyddyn Academaidd 15/16)</p>	x	<p><b>Canlyniad 2018/19 – 5.1% - Blwyddyn Academaidd 2017/18.</b> Yn siomedig ddigon, nid yw'r canlyniad yn cydymffurfio â'r targed ac mae wedi gwaethygu ers canlyniad y flwyddyn flaenorol sef 4.1%. Roedd cynnydd bach wedi bod yn y rhesymau absenoldeb awdurdodedig canlynol: o 1)</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
(Targed 2017/18 - 4.2% - Blwyddyn Academaidd 16/17)		Amgylchiadau awdurdodedig eraill; 2) Gwyliau Teulu y cytunwyd arnynt a 3) Salwch. Ceisir parhau i wneud gwelliannau drwy gynyddu'r cymorth a'r monitro sy'n digwydd o ran ysgolion. Byddwn yn ymgynghori â phenaethiaid ysgolion i ystyried sut y gall y defnydd gwell a mwy cyson o godau yn y meysydd a amlygwyd gefnogi'r mesur hwn.
Byddwn yn cynyddu % <b>presenoldeb disgyblion</b> mewn ysgolion uwchradd (PAM/008)  (Canlyniad 2017/18 - 94.3% - Blwyddyn Academaidd 16/17) (Targed 2018/19 - 94.4% - Blwyddyn Academaidd 17/18)	x	<b>Canlyniad 2018/19 - 93.8 - Blwyddyn Academaidd 16/17.</b> Nid yw'n cydymffurfio â'r targed ac mae wedi dirywio o gymharu â'r flwyddyn flaenorol sef 94.3%. Mae absenoldeb awdurdodedig wedi aros yn gyson ar 4.8% ond mae absenoldeb anawdurdodedig wedi cynyddu ac yn benodol yn y defnydd o gôd absenoldeb 'Arall'. Mae cynllun gwella cynhwysfawr y Gwasanaeth Llesiant Addysg yn amlinellu strategaethau cydweithredol ledled yr adran a fydd yn rhoi rhagor o gefnogaeth i'n hysgolion wella cyfraddau presenoldeb disgyblion. Byddant hefyd yn cysylltu â'r ysgolion hynny sydd â chanran uchel o godau 'O' i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau codio.
Byddwn yn gostwng % yr <b>absenoldeb wedi'i awdurdodi</b> mewn ysgolion uwchradd (4.1.2.2)  (Canlyniad 2017/18 - 4.8% - Blwyddyn Academaidd 16/17) (Targed 2018/18 - 4.7% - Blwyddyn Academaidd 17/18)	x	<b>Canlyniad 2018/19 - 4.8 - Blwyddyn Academaidd 16/17.</b> Nid yw hyn yn cyrraedd y Targed ond mae wedi parhau'n gyson â chanlyniad y flwyddyn flaenorol. Salwch oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros absenoldeb ac roedd yn cyfrif am 62.7% o'r holl absenoldebau.
<b>C - Ysgol ragorol yn y lle cywir</b>		
Byddwn yn cyflawni'r holl ymrwymiadau Band A a nodwyd yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg erbyn 2019, ac felly byddwn yn helpu ein plant a'n pobl ifanc i gael addysg o'r radd flaenaf mewn amgylchedd diogel ac ysgogol. Mae hyn yn cynnwys darparu campysau newydd ar gyfer Ysgol Penrhos ac Ysgol Gymraeg Dewi Sant. (Cyf 13120) MF5-25	✓	Mae ymrwymiadau Band A yn cael eu cyflawni'n barhaus ac mae'r gwaith adeiladu wedi'i gwblhau neu'n datblygu'n dda mewn nifer o ysgolion, gan sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn cael addysg o'r radd flaenaf mewn amgylchiadau diogel ac ysgogol sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif. Mae gwaith adeiladu wedi'i gwblhau ym Mhorth Tywyn, Carreg Hirfaen, Coedcae, Parc y Tywyn, Pen Rhos, Pontyberem, Sant Ioan Llwyd, Strade a Thrimsaran. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn Llangadog. Er bod cynllun yn cael ei ddatblygu i ddarparu campws newydd ar gyfer Ysgol Gymraeg Dewi Sant, mae materion cynllunio yn cael sylw ar hyn o bryd.
Byddwn yn gwneud buddsoddiad pellach o £129 miliwn rhwng 2019 a 2024 o dan y Rhaglen Moderneiddio Addysg. (Cyf 13121) MF5-26	✓	Mae 5 prosiect Band B wedi cael eu cyflymu yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg ac mae'r gwaith datblygu/dylunio yn digwydd yn ddi-oed. Mae 1 prosiect wedi derbyn cymeradwyaeth Achos Amlinellol Strategol ac mae 2 wedi derbyn cymeradwyaeth Achos Busnes Llawn gan Lywodraeth Cymru. Mae adolygiadau strategol a gwaith datblygu ar y mwyafrif o brosiectau Band B yn datblygu'n dda.
Byddwn yn ystyried y ddarpariaeth addysg gynradd yn ardaloedd Rhydaman, Llandeilo a Llanymddyfri. (Cyf 13122) MF5-27	✓	Mae'r modd y darperir addysg gynradd a ddarperir yn ardaloedd Rhydaman, Llandeilo a Llanymddyfri yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, drwy gynlluniau buddsoddi ar gyfer Ysgol Rhys Prichard ac ardaloedd Rhydaman a Llandeilo.
Byddwn yn ystyried opsiynau i ddefnyddio Model Buddsoddi	✓	Mae trafodaethau'n parhau gyda chydweithwyr a mynychir seminarau. Mae Llywodraeth Cymru yn caffael yn

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
Cydfuddiannol (MIM) Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymhellach y seilwaith addysg drwy fuddsoddiad cyfalaf. (Cyf 13123) MF5-33		genedlaethol ar gyfer 1 partner strategol i hwyluso darpariaeth model MIM. Mae Sir Gaerfyrddin wedi ailddatgan ei ddi-ddordeb i fod yn bartner strategol. Mae'r cynnydd ag unrhyw brosiectau yn destun cymeradwyaeth gan y Bwrdd Gweithredol.
Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn llawn i ofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi cael gwell deilliannau addysgol, gan gyfeirio'n benodol at y gofynion ar gyfer ysgolion gwledig. (Cyf 13124) MF5-32	✓	Mae'r broses ddiwygiedig sy'n ymgorffori'r gofynion ar gyfer cau ysgolion gwledig wedi cael ei chymeradwyo'n ffurfiol gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Plant.
Byddwn yn dadansoddi ac yn rhagweld data disgyblion a chapasiti ar gyfer cynllunio lleoedd ysgol ac ad-drefnu dyfodol ysgolion. (Cyf. 13125)	✓	Mae'r adolygiad o gyfrifiad capasiti pob ysgol ac amcanestyniadau nifer y disgyblion wedi cael ei gwblhau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau.
Byddwn yn rheoli materion ystâd ysgolion gan gynnwys cynnal a chadw adeiladau, gwirio asedau, mentrau eiddo llywodraethwyr a chyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth mynediad anabledd (Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd). (Cyf. 13126)	✓	Rheoli ystadau - ystyried a chymeradwyo fel y bo'r angen geisiadau am gynigion datblygu ysgol a chymorth ar gyfer cynigion rheoli risgiau. Cynnal a chadw adeiladau - Gwaith cyfalaf brys wedi'i awdurdodi ar gyfer 2018/19. Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd - Prosiectau Addasu i hwyluso derbyn disgyblion i'r ysgol wedi'u cwblhau yn ystod y Gwyliau Ysgol.
Byddwn yn cynnal gweithdrefnau statudol sy'n gysylltiedig â ffederasiwn, trefniadaeth ysgolion a/neu brosiectau gwella. (Cyf. 13127)	✓	Mae'r gweithdrefnau statudol i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Gorslas a newid ystod oedran Ysgol Parc y Tywyn i 3-11 wedi eu cwblhau. Mae'r gweithdrefnau statudol i gau ysgolion cynradd Tremolet a Maes-y-bont wedi eu cwblhau. Mae pum cynnig newid yn natur y ddarpariaeth yn mynd i gael eu rhoi gerbron y pwyllgorau. Mae rhagor o gynigion o ran ad-drefnu a ffedereiddio ysgolion yn cael eu hadolygu a'u datblygu.
Byddwn yn buddsoddi mwy nag £20 miliwn mewn prosiectau sylweddol o ran adeiladu a moderneiddio prosiectau yn Ysgolion Pen Rhos, Sant Ioan Llwyd, Parc y Tywyn, Pontyberem, Rhys Prichard a Llangadog. (Cyf. 13128)	✓	Mae'r gwaith adeiladu wedi'i gwblhau ym Mhorth Tywyn, Carreg Hirfaen, Coedcae, Parc y Tywyn, Pen Rhos, Pontyberem, Sant Ioan Llwyd, Strade a Thrimsaran. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn Llangadog. Mae Achos Cyfiawnhau Busnes wedi'i gymeradwyo ar gyfer Ysgol Rhys Prichard ac mae'r cynllun ar hyn o bryd yn aros i gael caniatâd cynllunio cyn bod y gwaith yn dechrau ar y safle.
Byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno achosion busnes ar gyfer ad-drefnu ysgolion a phrosiectau buddsoddi yn rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg i Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif genedlaethol. (Cyf. 13129)	✓	Mae cyflwyno achosion busnes yn digwydd yn unol â'r targed ac yn unol ag amserlen y Rhaglen Moderneiddio Addysg ar gyfer cyflwyno achosion busnes. Mae Achos Cyfiawnhau Busnes ar gyfer Ysgol Rhys Prichard wedi'i gymeradwyo ac mae Achos Amlinellol Strategol ar gyfer Ysgol y Castell wedi'i gymeradwyo.
Byddwn yn digomisiynu safleoedd yn dilyn cau neu uno ysgolion. (Cyf. 13130)	✓	Yn dilyn cymeradwyo eu cau, mae Ysgolion Cynradd Tremolet a Maes-y-bont yn y broses o gael eu datgomisiynu.
Byddwn yn parhau i wella cyflwr, addasrwydd ac adnoddau TGCh mewn ysgolion ac i sicrhau bod gan yr holl ysgolion a adeiladir o'r newydd y seilwaith a'r technolegau digidol	✓	Cafodd y ddarpariaeth TGCh yn adeilad newydd Ysgol Penrhos ei chwblhau ym Mai 2018. Cafodd y ddarpariaeth TGCh yn ysgol adnewyddedig Parc y Tywyn ei chwblhau yng Ngorffennaf 2018. Cafodd y ddarpariaeth TGCh yn ysgol adnewyddedig Pontyberem ei chwblhau yn Ionawr 2019. Cafodd y ddarpariaeth TGCh yn ysgol

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
diweddaraf i ddarparu addysg yn yr 21ain ganrif. (Cyf 13131) MF5-89		adnewyddedig/estynedig Llangadog ei chwblhau ym Mawrth 2019. Mudo system e-bost Zimbra i Hwb wedi'i gwblhau ym Mawrth 19. Mae Mentrau TIC Ysgolion (Argraffu, Systemau Ffôn a Llinellau/Galwadau) yn dal i wneud arbedion effeithlonrwydd. Dysgu yn y Gymru Ddigidol 2 (LiDW2)/Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA) – 43 o ysgolion wedi'u cwblhau, 1 yn disgwyl BT. Ailraddio 10mbps i 100mbps – disgwyl dyddiad gan PSBA. Cwmwl yn cynnal Hidlydd y We mewn Ysgolion yn ôl y bwriad.
Byddwn yn cynnal % yr ysgolion y graddiwyd eu bod yn "Dda" (Categori A) neu'n "Foddhaol" (Categori B) am gyflwr yr adeiladau (4.3.1.8) (Canlyniad 2017/18 - 57% / Targed 2018/19 - 63%)	✓	Cafodd <b>63%</b> o'n hysgolion eu graddio'n "Dda" (Categori A) neu'n "Foddhaol" (categori B) o ran cyflwr adeiladau ysgol yn ystod 2018/19.
<b>D - Datblygu'r gweithlu a chynllunio ar gyfer olyniaeth</b>		
Byddwn yn parhau i gefnogi, herio a gwella ansawdd yr arweinyddiaeth a'r effaith ar wella darpariaeth a deilliannau ar y cyd ag uwch-arweinwyr ysgolion e.e. darparu Seminarau a Rhwydweithiau Arweinyddiaeth. (Cyf. 13132)	✓	<p>Rydym wedi parhau i weithredu ystod eang o weithgareddau effeithiol i gefnogi natur bwrpasol y cam hollbwysig hwn, gan barhau i ganolbwyntio'n benodol ar natur unigol a chynnwys 'pecynnau cymorth pwrpasol' ysgolion. Mae hyn wedi cynnwys y canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Gweithredu a gwerthuso Ymweliadau Cymorth Craidd 1 a 2 ERW / cytuno ar Gategoreiddio Cenedlaethol ym mhob lleoliad ysgol unigol gan ganolbwyntio ar: a) Arweinyddiaeth/Addysgu yr ysgol a pherfformiad a chapasiti i hunanwella; b) adolygiadau a gwerthusiadau cynnydd yn achos pob argymhelliad a wnaed i'r ysgol yn dilyn ymweliad blaenorol ERW c) adolygu cynnydd yn erbyn camau gweithredu y cytunwyd arnynt o fewn rhaglen gylchol;</li> <li>Mae comisiynu uwch-arweinwyr i gefnogi gwaith Ymgynghorydd Her ERW (fel 'Ymgynghorwyr Her a Gomisiynwyd') wedi parhau i gyfrannu'n effeithiol at rannu 'arfer da o ran arweinyddiaeth' ar draws llawer o'n hysgolion a chefnogi cydweithwyr a gomisiynwyd â hyfforddiant datblygiad proffesiynol gwerthfawr. Ategir y gwaith hwn gan gyfarfodydd datblygu Tîm mewnol rheolaidd.</li> <li>Cyfleoedd datblygu parhaus i Benaethiaid sy'n Arweinwyr Canol, Darpar Arweinwyr ac Arweinwyr Gweithredol drwy gymryd rhan yn rhaglen datblygu arweinyddiaeth ERW</li> <li>'Seminarau a Sesiynau Briffio Arweinyddiaeth ar gyfer Uwch-arweinwyr a Llywodraethwyr' yn rhoi ffocws ar feysydd penodol o welliant ac arweinyddiaeth strategol o ran gwella canlyniadau yn ein hysgolion.</li> <li>Comisiynu uwch-arweinwyr yn barhaus i gefnogi pecynnau Llywodraeth Cymru a gyllidir gan grantiau e.e. Ysgolion Bach a Gwledig.</li> <li>Ymweliadau Panel Craffu Addysg a Gwasanaethau Plant</li> <li>Cyflwyniadau Seminar Penaethiaid Ysgolion - 'rhannu arferion effeithiol' ar draws yr holl ysgolion</li> <li>Gweithredu rhaglen ddiwygiedig ar gyfer penaethiaid sydd newydd gael eu penodi.</li> </ol>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		9. Penaethiaid enwebedig i rannu rolau strategol o fewn ein pedwar Fforwm strategol (Mynediad i Addysg, Cwricwlwm a Llesiant, Gwasanaethau Addysg a'r Fforwm Cyllideb Ysgolion)
Byddwn yn cefnogi Llywodraethwyr yn eu rôl arweinyddiaeth strategol drwy weithgareddau briffio a hyfforddi ffocysedig, gan gynnwys y rhaglen hyfforddi llywodraethwyr gorfodol. (Cyf. 13133)	✓	Cafodd rhaglen hyfforddiant ei llunio ar gyfer tymor yr hydref mewn ymateb i anghenion a nodwyd ar gyfer y llywodraethwyr. Mae'r rhaglen hyfforddi hon wedi'i gweithredu'n llawn ac wedi cael croeso brwd gan y llywodraethwyr. Rydym yn parhau i fonitro anghenion hyfforddiant ac yn gwerthuso'r rhaglen yn barhaus.
Byddwn yn datblygu ymhellach systemau i gefnogi gwella ysgolion, gan gynnwys darpariaeth Datblygiad Proffesiynol a Rheoli Perfformiad parhaus ar gyfer staff yr ysgol. (Cyf. 13134)	✓	Mae staff Datblygiad Proffesiynol Parhaus yr Ysgolion yn dal i gefnogi'r Ymgynghorwyr Her a staff yr ysgol i hwyluso cyfleoedd Datblygu Proffesiynol. Yn ystod y flwyddyn cafwyd arian grant ychwanegol ar gyfer datblygiad proffesiynol ac fe' datganolwyd i ysgolion. Mae cymorth yn parhau i gael ei roi i ysgolion drwy ddiwedd y flwyddyn ariannol i sicrhau bod grantiau'n benodol gywir a'u bod yn cael eu defnyddio'n llawn.
Drwy gyfrwng Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, byddwn yn sicrhau bod yna ddewislen o gyfleoedd galwedigaethol yn cyd-fynd â chwricwlwm addysgol y Cyngor i fynd i'r afael â'r sgiliau lleol ar gyfer byd gwaith a'r llwybrau lleol i waith, yn ogystal â datblygu llwybrau dysgu gyda Choleg Sir Gâr a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. (Cyf. 13135) MF5-34	✓	Mae trafodaethau wedi parhau rhwng y tîm Adfywio a'r Penaethiaid Uwchradd i alinio'r Fargaen Ddinesig â llwybrau dysgu ysgolion. Mae trafodaethau cynhyrchiol â Choleg Sir Gâr/PCYDDS yn mynd rhagddynt. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r cam hwn er mwyn alinio datblygiadau disgwylidig pellach ym Menter Sgiliau a Thalentau y Fargaen Ddinesig.
Byddwn yn adolygu'r drefn o ran llywodraethwyr ysgol ac yn annog pobl i fod yn llywodraethwyr. (Cyf 13136) MF5-35	✓	Staff Cynnal Llywodraethwyr yn gweithio gydag Ymgynghorwyr Her a Phenathiaid Gwasanaeth i weithio gydag ysgolion er mwyn hyrwyddo, annog a darparu cymorth i lywodraethwyr newydd.
Byddwn yn adolygu'r holl dyddiadau derbyn disgyblion i'r ysgol a'r ystodau oedran ar draws y Sir. (Cyf 13137) MF5-36		Roedd adolygiad o ddyddiadau derbyn disgyblion i'r ysgol ac o ystodau oedran yn ffurfio rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Craffu - Addysg a Chwarae Blynyddoedd Cynnar. Bydd argymhellion yn deillio o waith y Grŵp ar gael ac yn cael ei ystyried yn 2019/20.
Byddwn yn adolygu'r gwasanaethau cymorth presennol o ran ymddygiad arbenigol yn y Sir gyda'r bwriad o ddatganoli cymorth a dod â gwasanaethau cymorth i mewn i'r ddarpariaeth brif ffrwd erbyn 2021. (Cyf 13138) MF5-42	✓	Ym Mehefin 2018, datblygwyd cynlluniau i drawsnewid gwasanaethau cymorth ymddygiad presennol, gan ddarparu model ar gyfer Sir Gaerfyrddin sy'n gwella'r cymorth Llesiant a'r cymorth ymddygiad sydd ar gael. Cafodd Model Pedwar Cam ei gynnig a'i ddatblygu drwy Grwpiau Strategol, y Tîm Rheoli Adrannol a'r Pwyllgor Gweithredol. Cytunwyd ar y Model Pedwar Cam a bydd cynnydd yn cal ei wneud o ran hyn.
Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith partneriaeth gydag eraill sy'n darparu dysgu oedolion yn y gymuned drwy Grŵp Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Gaerfyrddin. (Cyf. 13139)	✓	Mae'r Gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn parhau i gefnogi gwaith ehangach y bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Mae cyfarfodydd rheolaidd o Wasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Gaerfyrddin wedi digwydd. Mae partneriaid newydd wedi ymuno ac mae cadeirydd ac ysgrifennydd newydd wedi eu penodi. Mae Adroddiad Hunanasesu ar y cyd wedi'i lunio a chaiff cynllun Gwella Partneriaeth ei adolygu yng nghyfarfodydd Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Gaerfyrddin.